



Llanilltud Fawr i Nash Point, Bro Morgannwg

Bydd angen i chi allu ymdopi ag uchder ar y daith gerdded hon ar hyd Arfordir Treftadaeth Morgannwg – y lle perffaith i chwilota am ffosilau dinosor.

"Natur odidog copa'r graig sy'n darparu uchafbwynt y daith hon i gerddwyr. Nid yn unig y mae'r golygfeydd ar draws Môr Hafren yn eang, ond mae'r ddaear hefyd yn ddiddorol gyda chlogwyni yn llawn ffosilau a chyfrinachau'r gorffennol. Cadwch lygad am adar y môr, sy'n aml yn defnyddio'r clogwyni fel cartref."

TRICIA COTTNAM, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU

Dechrau a Diwedd:

Maes parcio traeth Llanilltud Fawr i faes parcio Nash Point.

Pellter:

3 milltir/5km.

Ar hyd y ffordd...

Gan ddechrau o draeth Llanilltud Fawr, lle poblogaidd i helwyr ffosilau, mae Llwybr Arfordir Cymru yn mynd tua'r gorllewin ar hyd y clogwyni.

Mae eich lleoliad uchel yn cynnig golygfeydd ysblynydd ar draws Môr Hafren, tra bod y clogwyni a'r agennau calchfaen islaw yn hafan i adar y môr. Ar waelod y clogwyni ceir llawer o ogofâu wedi'u ffurfio gan y môr. Roedd yr ardal ar un adeg yn fan poblogaidd ar gyfer smyglo ac mae chwedl leol yn dweud bod

llawer o'r ogofâu hyn wedi'u cysylltu gan dwneli dirgel.

Ceir mwy o hanesion am ddyrioni ym Mae Tresilian creigiog, a honnwyd iddo fod yn safle tafarn a fynychwyd gan fôr-ladron a gwylliaid.

Ar ôl Bae Tresilian, mae'n werth mynd ar daith fer oddi ar Llwybr Arfordir Cymru i archwilio tir Eglwys Sain Dunwyd, sy'n cysgodi o dan furiau mawreddog Castell Sain Dunwyd. Mae'r castell yn dyddio'n ôl i'r 12fed ganrif, ond cafodd enwogrwydd yn y 1920au pan gafodd ei brynu gan bennaeth papur newydd o'r Unol Daleithiau William Randolph Hearst, a ysbydolodd ffilm glasur Orson Welles, Citizen Kane. Diddanodd Hearst ystod o ymwelwyr enwog gan gynnwys Winston Churchill, Charlie Chaplin ac Errol Flynn.

Wrth ichi barhau i ben y daith, byddwch yn mynd heibio Goleudy Nash Point. Roedd mewn gwasanaeth am bron i 200 o flynyddoedd, ac roedd yn un o'r goleudai diwethaf gyda chriw i gael ei newid i weithredu'n awtomatig. Dewch i'r ganolfan ymwelwyr i ddarganfod mwy am hanes y goleudy ac i edmygu'r golygfeydd o ben y tŵr.

Angen gwybod:

Ceir meysydd parcio, toiledau a lluniaeth ar ddau ben y daith.

Gallwch hefyd gysylltu'r dechrau a'r diwedd drwy ddal y gwasanaeth bws lleol 303 o Lanilltud Fawr (tua 2.5km o draeth Llanilltud Fawr) a Marcroes (tua 1.5km o Nash Point).

Mae gan y wefan gwasanaethau bws The New Adventure Travel (NAT) sy'n cwmpasu Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Phontypridd hefyd amserlenni bysiau ar ei gwefan: www.natgroup.co.uk

Os hoffech deithio ar y trên, mae gorsaf drenau yn Llanilltud Fawr.